Pwysau Iach: Cymru Iach

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Safonau ar gyfer Darparu Gwasanaethau i Bobl Ordrwm a Gordew yng Nghymru


**Diben y ddogfen a chrynodeb ohoni:**

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r safonau arfaethedig ar gyfer cefnogi byrddau iechyd a'u partneriaid i ddarparu gofal cyfiawn ac effeithiol i'r bobl hynny sy'n ordrwm neu ordew yng Nghymru, yn unol â Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan.

# Cyflwyniad

Cydnabuwyd gan y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach bwysigrwydd mynd i'r afael ag iechyd a phwysau fel dau o'r prif ffactorau sy'n achosi iechyd gwael a marwolaeth gynnar ymhlith poblogaeth Cymru. Cydnabuwyd gan y dull a amlinellwyd yn y strategaeth yr angen i gymryd camau ar sawl lefel er mwyn mynd i'r afael â'r agweddau ehangach sy'n arwain at ddeiet gwael ac anweithgarwch corfforol, a darparu gwasanaethau cyfiawn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r bobl hynny sydd angen cymorth i gyflawni pwysau iach a'u cynnal.

Drwy gydol y broses o ddatblygu'r strategaeth, pwysleisiodd y bobl sy'n dioddef o fod yn ordrwm a gordew, ynghyd â'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda'r unigolion hynny, yn gyson, y cywilydd, y stigma a'r gwahaniaethu y mae pobl yn eu profi. Mae'n hanfodol sicrhau y darperir gofal mewn ffordd nad yw'n gwarthnodi. Mae angen hefyd cydnabod nad yw pwysau nad ydynt yn iach yn fethiant personol ond yn hytrach eu bod o ganlyniad i amrediad cymhleth o ffactorau yn yr amgylchedd ffisegol, cymdeithasol ac economaidd, mewn cyfuniad â ffactorau genetig, sydd, gyda'i gilydd, yn golygu bod cyflawni pwysau iach yn anos o lawer i rai pobl na'i gilydd.

Mae'r safonau hyn wedi'u datblygu i gefnogi byrddau iechyd, wrth gydweithio â'u partneriaid lleol, i ddarparu gwasanaethau i'w poblogaeth leol sy'n briodol, yn gefnogol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn ystyriol o ffactorau seicolegol.

Mae'r safonau'n berthnasol i'r nodau o ddarparu gwasanaethau penodol i ddiwallu anghenion pobl leol yn unol â Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan ar gyfer Plant ac Oedolion, a sicrhau bod yr holl ofal a ddarperir yn hybu urddas mewn gofal ar gyfer pobl sy'n dioddef o fod yn ordrwm a gordew, a hynny yn yr holl ffyrdd y maent yn rhyngweithio â'r system iechyd a gofal leol.

Mae'r safonau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi byrddau iechyd ar hyd taith o welliant parhaus o ran darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion sy'n dioddef o fod yn ordrwm a gordew.

Nododd adolygiad o gamau gweithredu blaenorol y llwybr gordewdra gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2018 fod nifer o gyfleoedd i wella er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar gael ar bob lefel o'r llwybr, yn unol â safonau ac arferion da cenedlaethol cydnabyddedig.

Mae'r safonau hyn yn cydnabod y rhan hanfodol bwysig y mae byrddau iechyd yn ei chwarae o ran cynllunio a chydlynu gofal ar hyd y llwybr er mwyn sicrhau bod taith pob claf unigol yn cael ei hwyluso, a bod y symudiad rhwng gwasanaethau mor llyfn â phosibl wrth i anghenion unigolion newid.

Bydd y safonau hefyd yn sail i'r hyn y bydd y byrddau iechyd yn ei adrodd i Lywodraeth Cymru ynghylch gweithredu'r llwybr.

# Y safonau

## Safon 1

Bydd pob bwrdd iechyd yn cyhoeddi cynllun datblygu llwybr rheoli pwysau strategol a gaiff ei gytuno â Llywodraeth Cymru. Dylai'r cynllun amlinellu asesiad o'r angen i lywio'r blaenoriaethau o ran gweithredu, cynllun datblygu fesul cam, a disgrifiad o'r gwasanaethau ar bob lefel o Lwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan ar gyfer oedolion, plant, a'r bobl hynny ag anghenion penodol, e.e. menywod beichiog.

## Safon 2

Disgwylir y bydd byrddau iechyd yn gallu dangos sut y bydd gwasanaethau yn y cynllun datblygu llwybr rheoli pwysau strategol yn diwallu anghenion y boblogaeth ac yn lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau. Dylai byrddau iechyd fod yn gallu dangos bod gwasanaethau'n hygyrch ac wedi'u targedu i ddiwallu anghenion penodol lle bo hynny'n briodol, a bod gwaith monitro o ran y defnydd a wneir o wasanaethau yn ystyried y graddau y mae mynediad iddynt gan grwpiau sy'n agored i niwed yn gyfiawn. Dylai byrddau iechyd gyflwyno adroddiad blynyddol ar allu'r gwasanaethau ar bob lefel o'r llwybr.

## Safon 3

Caiff pobl â phwysau corff uwch eu trin ag urddas a pharch fel nad ydynt yn teimlo'u bod wedi'u gwarthnodi yn sgil diffyg cyfarpar neu gyfleusterau priodol. Mae hyn yn cynnwys trafnidiaeth i gleifion a'r gwasanaethau argyfwng.

## Safon 4

Ymgysylltir yn weithredol â phobl sy'n dioddef o fod yn ordrwm a gordew yn ystod y broses o gynllunio, comisiynu, gwerthuso a darparu gwasanaethau, gan sicrhau eu bod yn rhan o'r broses honno.

## Safon 5

Bydd y llwybr rheoli pwysau yn yr ardal leol wedi'i reoli a'i gydlynu. Bydd gan wasanaethau sy'n darparu elfennau o'r llwybr ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau a'r mecanweithiau ar gyfer hwyluso symudiadau llyfn i unigolion o fewn y llwybr wrth i'w hanghenion newid. Bydd gan y gwasanaethau o fewn y llwybr fecanweithiau i hwyluso integreiddio â llwybrau clinigol eraill er mwyn sicrhau bod unigolion yn derbyn asesiadau ac atgyfeiriadau priodol ar gyfer cyflyrau y gall gordewdra eu gwaethygu neu eu hachosi.

## Safon 6

Caiff y protocolau a lywir gan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 eu dilyn mewn achosion lle mae gordewdra yn ystod plentyndod yn peri pryder proffesiynol mewn perthynas â llesiant a pherygl o niwed.

## Safon 7

Bydd y staff sy'n gweithio i'r bwrdd iechyd yn derbyn hyfforddiant i'w galluogi i ddarparu gofal tosturiol sy'n ystyriol o ffactorau seicolegol ac sy'n osgoi peri gwarthnodi a gwahaniaethu. Bydd pob aelod o staff â'r gallu i gymryd rhan mewn trafodaethau cefnogol â chleifion ynghylch rheoli pwysau, yn unol â Lefel 1 y llwybr.

## Safon 8

Bydd y bwrdd iechyd yn mabwysiadu dull gwelliant parhaus o sicrhau ansawdd a chanlyniadau'r gwasanaethau, gan ddefnyddio'r set ddata leiaf a mecanweithiau eraill, gan gynnwys storïau cleifion.

Bydd y bwrdd iechyd yn cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru yn unol â'r safonau gwasanaethau gofynnol, a bydd yn annog cyfranogiad yn y broses archwilio ac adolygu genedlaethol, a hynny'n weithredol.

## Safon 9

Bydd y gwasanaethau rheoli pwysau'n rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt â chydweithwyr y gwasanaethau hynny yn ogystal â chydweithwyr y tu allan iddynt.

## Atodiad 1

Templed adrodd – Safonau Pwysau Iach: Cymru Iach 2021/22

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd iechyd | | Enw'r unigolyn sy'n cwblhau'r ffurflen | |
| | | Manylion cyswllt: | |
| **Safon 1** | | | |
| Atodwch gopi o'ch cynllun datblygu strategol<br>Cynllun ynghlwm ☐ | | Y boblogaeth a dargedir / yr ardal darged / y gallu cynlluniedig | Cyllid newydd wedi'i ddyrannu (lle bo'n briodol) |
| **Lefel 1**<br>Dylid cynnwys manylion am unrhyw waith datblygu a gynllunnir ar gyfer 2021/22 | | | |
| **Lefel 2**<br>Dylid cynnwys manylion am unrhyw ddatblygiadau gwasanaeth newydd a gynllunnir ar Lefel 2 ar gyfer 2021/22 | | | |
| **Lefel 3**<br>Dylid cynnwys manylion am unrhyw ddatblygiadau gwasanaeth newydd a gynllunnir ar Lefel 3 ar gyfer 2021/22 | | | |
| **Lefel 4**<br>Rhowch fanylion am unrhyw ddatblygiadau a gynllunnir ar gyfer hwyluso mynediad at wasanaethau Lefel 4, gan gynnwys trefniadau rhannu gofal gyda Lefel 3 ac arweiniad neu hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n gwneud atgyfeiriadau ac ati | | | |
| **Safon 2** | | | |
| **Gallu/gweithgarwch y gwasanaeth ar hyn o bryd (blynyddol) ar gyfer oedolion ar** | | Gallu ar gyfer atgyfeiriadau newydd fesul blwyddyn | Nifer y cleifion a atgyfeiriwyd a dderbyniodd driniaeth |
| **Lefel 2** | | | |
| **Lefel 3** | | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Lefel 4** | | |
| **Gallu/gweithgarwch y gwasanaeth ar hyn o bryd (blynyddol) ar gyfer plant a phobl ifanc ar** | | |
| **Lefel 2** | | |
| **Lefel 3** | | |
| **Lefel 4** | | |
| **Rhowch fanylion am unrhyw welliannau a wnaed i wella mynediad at wasanaethau ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed, y bobl hynny o gefndir lleiafrifoedd ethnig sydd â risg uwch o fod yn ordew, ac unigolion o gymunedau difreintiedig** | | |
| **Safon 3** | | |
| **Rhowch fanylion am unrhyw waith a wnaed i sicrhau mynediad, ym mhob ardal glinigol, i offer sy'n addas ar gyfer trin a gofalu am unigolion â phwysau corff uwch** | | |
| **Safon 4** | | |
| **Disgrifiwch y mecanweithiau rydych wedi'u sefydlu i sicrhau bod cyfranogiad gan gleifion a'r cyhoedd yn dylanwadu ar y broses o gynllunio, llunio, gwerthuso a darparu gwasanaethau** | | |
| **Safon 5** | | |
| **Darparwch fap/diagram o'ch llwybr rheoli pwysau lleol sy'n amlinellu'r elfennau gwasanaeth allweddol ynghyd ag unrhyw fframwaith rheoli/cydlynu ar gyfer oedolion a phlant** | | |
| **Safon 8** | | |
| **Amlinellwch y gwaith a gynllunnir ar gyfer galluogi'r gweithlu i ddarparu gofal tosturiol sy'n ystyriol o ffactorau seicolegol ar gyfer pobl sy'n ordrwm ac yn ordew** | | |
| **Safon 9** | | |
| | | |